

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (8 RHES Y COLEG, YSTRADGYNLAIS, POWYS) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Sir Powys ar 11 Mai 2021 o dan y cyfeirnod 20/1383/HH a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (8 Rhed y Coleg, Ystradgynlais, Powys) 2023 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopiâu o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Neuadd Sir Powys, Spa Road East, Llandrindod, Powys, LD1 5LG, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1599716.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 18 Mai 2023, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-cau) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-cau>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

## TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

### THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (8 COLLEGE ROW, YSTRADGYNLAIS, POWYS) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The stopping up will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Powys County Council on 11 May 2021 with reference number 20/1383/HH described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (8 College Row, Ystradgynlais, Powys) Order 2023 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at Powys County Hall, Spa Road East, Llandrindod Wells, Powys, LD1 5LG, or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1599716.


If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

- a. it is not within the powers of the 1990 Act; or
- b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 18 May 2023 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/stopping-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

**ATODLEN 1**  
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn petryalog ei siâp o briffordd ar ochr orllewinol Rhes y Coleg, Ystradgynlais, Powys, sy'n rhedeg i gyfeiriad y gogledd-orllewin, sy'n 6 metr yn y man hiraf ac yn 2 fetr yn y man lletaf, fel y'i dangosir â llinellau sebra ar y plan a adnewwyd.

**ATODLEN 2**

**Y Datblygiad**

Gwaith adeiladu er mwyn codi wal cwrt blaen newydd ar gyfer 8 Rhes y Coleg, Ystradgynlais, Powys.

**SCHEDULE 1**  
**(All measurements are approximate)**

**Length of highway to be stopped up**

A rectangular length of highway located on the western side of College Row, Ystradgynlais, Powys, running in a north-westerly direction, with a maximum length of 6 metres, and a maximum width of 2 metres, as shown by zebra hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**

**The Development**

Construction works for the erection of a new forecourt wall for 8 College Row, Ystradgynlais, Powys.